

Allech chi redeg Clwb Menter?

Gwybodaeth gyfreithiol bwysig

Dim ond er gwybodaeth y darperir y ddogfen 'Allech chi redeg Clwb Menter?' ac mae'n cynnig cyngor ymarferol a chanllawiau i'r sefydliadau hynny sydd â diddordeb mewn sefydlu neu gefnogi Clwb Menter. Dim ond at ddibenion enghreifftiol y darperir y ddogfen hon, ac nid yw'n cyflwyno cyngor cyfreithiol. Cynghorir yn gryf i'r sefydliadau neu unigolion sy'n ystyried cymryd rhan mewn Clybiau Menter geisio cyngor annibynnol, gan gynnwys cyngor cyfreithiol.

Bydd unrhyw Glwb Menter a gaiff ei sefydlu yn endid preifat a bydd unrhyw fater sy'n codi o ganlyniad i'w sefydlu neu ei weithrediad neu mewn perthynas â hynny yn gyfrifoldeb llwyr y Clwb Menter. Gan na chaiff Clybiau Menter eu harwain gan y Ganolfan Byd Gwaith na'r Adran Gwaith a Phensiynau ac nad oes cytundeb ffurfiol rhwng y Ganolfan Byd Gwaith na'r Adran Gwaith a Phensiynau â'u trefnwyr, ni fydd y Ganolfan Byd Gwaith na'r Adran Gwaith a Phensiynau yn atebol am unrhyw faterion sy'n ymwneud â Chlybiau Menter.

Y Clwb unigol fydd yn gyfrifol am ddatrys unrhyw broblemau neu gwynion sy'n codi o ganlyniad i Glwb Menter, gan ei haelodau neu gan aelodau'r cyhoedd. Ni fydd y Ganolfan Byd Gwaith na'r Adran Gwaith a Phensiynau, mewn unrhyw ffordd, yn atebol am unrhyw fater sy'n ymwneud â'r Clybiau Menter neu mewn perthynas â'r cynnwys neu'r wybodaeth sydd yn y canllaw hwn.

Bydd disgwyl i unrhyw sefydliad sy'n ymwneud â darparu Clybiau Menter gydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol, gan gynnwys y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, y Ddeddf Cydraddoldeb 2010, y Ddeddf Hawliau Dynol a'r Ddeddf Diogelu Data. Fodd bynnag, ni fydd yr Adran Gwaith a Phensiynau na'r Ganolfan Byd Gwaith yn ymwneud â gorfodi na monitro cydymffurfiaeth.

Y sefydliad(au)/yr unigolyn(unigolion) sy'n ymwneud â darparu'r Clwb Menter sy'n gyfreithiol gyfrifol am gynnal safonau iechyd a diogelwch unrhyw Glwb Menter a gynhelir ar ei/eu safle.

Y sefydliad(au)/yr unigolyn(unigolion) fydd yn gyfrifol am dalu costau unrhyw wiriadau cysylltiedig gan gynnwys gwiriadau Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB), ar gyfer y cwsmer/gwirfoddolwr, ac ni all y Ganolfan Byd Gwaith na'r Adran Gwaith a Phensiynau dalu am y rhain.

Nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau/y Ganolfan Byd Gwaith yn caniatáu i logos, delweddau na deunydd hawlfraint nac unrhyw Eiddo Deallusol gael eu defnyddio gan Glybiau Menter a/neu gyfeiriad at unrhyw gysylltiad â'r Adran Gwaith a Phensiynau/y Ganolfan Byd Gwaith drwy gyfeirio atynt mewn dogfennau neu ar lafar oni bai bod y Ganolfan Byd Gwaith neu'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi rhoi caniatâd ysgrifenedig penodol.

Allech chi redeg Clwb Menter?

Ymwadiad

Er y cymerir pob gofal a diwydrwydd i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn rhoi canllaw cyffredinol, nid yw'r Adran Gwaith a Phensiynau yn gwarantu bod y wybodaeth sydd yn y ddogfen hon yn gywir nac yn gyfredol ac ni fydd yn atebol am unrhyw amgylchiadau o ran unrhyw golled, costau difrodi, taliadau na threuliau posibl sydd, mewn unrhyw ffordd, yn codi o'r ffaith bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi darparu'r ddogfen hon.